| 12. | Esboniodd y dysgwr y cyfyngiadau cyfreithiol ar gyfer gweithredwyr ifanc a dibrofiad yn cludo peiriannau ar hyd ffyrdd cyhoeddus a mynedfeydd. | ○ |
| 13. | Dangosodd y dysgwr ymwybyddiaeth o'r angen am hyfforddiant a/neu ardystio i weithredwyr ar gyfer y peiriannau gafodd eu dewis. | ○ |

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

## ASEINIAD 307 CYFLAWNI GWEITHREDIADAU PEIRIANNAU TIR

### Tasg B Paratoi peiriannau tir ar gyfer gwaith

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

# ASEINIAD 307 CYFLAWNI GWEITHREDIADAU PEIRIANNAU TIR

### Tasg C Gweithredu peiriannau tir Meini

### Prawf Asesu

3.1 Gweithredu peiriannau tir dethol i fodloni amcanion penodol yn ddiogel
3.2 Esbonio gweithrediad diogel peiriannau tir dethol

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg C rhaid i'r dysgwr ddangos cymhwysedd wrth ddefnyddio ystod ddethol o beiriannau a systemau ar y tir yn ddiogel ac yn effeithlon. Dylai peiriannau a ddewiswyd gynnwys yr holl systemau canlynol:

- peiriant wedi’i gyplysu
- peiriant treilar
- peiriant a yrrir trwy PTO
- peiriant sy'n ddibynnol ar gyflenwad hydrolig allanol
- peiriant sydd angen cyflenwad trydan
- peiriant sydd angen ei osod o fodd cludo i fodd gweithio.

Bydd disgwyl i'r dysgwr weithredu o leiaf ddau beiriant yn dibynnu ar gymhlethdod ac argaeledd, cyn belled â bod yr holl systemau a amlinellir uchod yn cael eu cwmpasu'n ddigonol. Rhaid i'r dysgwr gludo uned bŵer a pheiriant yn ddiogel ac yn gyfreithiol i'r safle gwaith ar hyd llwybr dynodedig sy'n cael ei ystyried yn briffordd gyhoeddus. Unwaith y byddant ar y safle bydd y dysgwr yn newid o fodd cludo i fodd gweithio lle bo hynny'n berthnasol ac yn ymgymryd â gosodiadau peiriannau ac unedau pŵer i baratoi i gwrdd â gofynion gwaith maes penodol.  Rhaid i'r dysgwr gwblhau asesiadau risg ar gyfer pob tasg gwaith maes i'w chyflawni. Rhaid i asesiadau gynnwys materion amgylcheddol. Bydd y dysgwr yn dangos cymhwysedd yn y defnydd diogel ac effeithlon o uned bŵer a pheiriant gan roi sylw arbennig i arferion gweithio diogel, gweithdrefnau pentir, cyfradd gwaith a'r economi. Rhaid i'r dysgwr gyfiawnhau'r dewis o uned bŵer, gosodiadau peirianyddol a gweithdrefnau maes a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl.

Mae rhestr wirio marcio wedi’i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| C | Cafodd pob un o'r 5 maen prawf hanfodol ei fodloni. | Cafodd pob un o'r 5 maen prawf hanfodol ei fodloni a phob un o'r  2 dymunol. | Cafodd pob un o'r 5 maen prawf hanfodol ei fodloni a phob un o'r  3 dymunol. |

## ASEINIAD 307 CYFLAWNI GWEITHREDIADAU PEIRIANNAU TIR

### Tasg C Gweithredu peiriannau tir Rhestr wirio marcio

1. Cludodd y dysgwr yr uned bŵer a'r peiriant i'r safle gwaith. ☐
2. Newidiodd y dysgwr osodiadau'r peiriant o fodd cludo i fodd gweithio. ☐
3. Newidiodd y dysgwr osodiadau'r peiriant a'r uned bŵer i gwrdd â gofynion gwaith maes penodol. ☐
4. Defnyddiodd y dysgwr weithdrefnau gwaith maes a phentir addas. ☐
5. Dychwelodd y dysgwr osodiadau'r uned bŵer a'r peiriant i fodd cludo. ☐
6. Gwnaeth y dysgwr asesiadau safle, amgylcheddol a iechyd a diogelwch. ○
7. Nododd y dysgwr weithdrefnau gweithredu diogel cywir. ○
8. Asesodd y dysgwr ganlyniadau gwaith maes yn erbyn gofynion penodol a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer gwella. ○

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

## ASEINIAD 307 CYFLAWNI GWEITHREDIADAU PEIRIANNAU TIR

### Tasg Ch Cynnal a chadw peiriannau tir Meini

### Prawf Asesu

4.1 Gwneud gwaith cynnal a chadw gweithredwyr ac atgyweiriadau priodol ar gyfer peiriannau tir penodol
4.2 Asesu diffygion posibl a/neu rannau diffygiol ar beiriant tir penodol

### Canllaw asesu

Bydd y dysgwr yn dangos cymhwysedd yn gwasanaethu a thrwsio peiriannau tir ac yn cyflawni tasgau'n ddiogel ac yn effeithiol yn unol ag argymhellion gwneuthurwyr. Bydd peiriannau dethol yn cynnwys:

- peiriant treilar
- peiriant cyplysedig
- peiriant a yrrir trwy PTO
- peiriant nad yw'n cael ei yrru gan bŵer.

Bydd disgwyl i'r dysgwr wasanaethu o leiaf ddau beiriant yn dibynnu ar gymhlethdod ac argaeledd, cyn belled â bod yr holl systemau a amlinellir uchod yn cael eu cwmpasu'n ddigonol.

Bydd y dysgwr yn gallu paratoi peiriannau yn barod i dasgau gwasanaethu gael eu gwneud. Bydd tasgau'n rhai ar amserlen a rhai heb amserlen. Ar ôl cwblhau'r gwasanaeth bydd y dysgwr yn ymchwilio i gyflwr peiriant dethol a nodi diffygion potensial neu gydrannau diffygiol gan awgrymu strategaethau addas i wella cyflwr y peiriant.

Mae rhestr wirio marcio wedi’i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| Ch | Cafodd pob un o'r 12 maen prawf hanfodol ei fodloni. | Cafodd pob un o'r 12 maen prawf hanfodol ei fodloni a phob un o'r 3 dymunol. | Cafodd pob un o'r 12 maen prawf hanfodol ei fodloni a phob un o'r 5 dymunol. |

## ASEINIAD 307 CYFLAWNI GWEITHREDIADAU PEIRIANNAU TIR

### Tasg Ch Cynnal a chadw peiriannau tir

### Rhestr wirio marcio

1. Gwiriodd y dysgwr y peiriant a'i baratoi ar gyfer gwasanaeth. ☐
2. Gwnaeth y dysgwr archwiliadau ar beiriannau dethol i bennu eu cyflwr. ☐
3. Cynhyrchodd y dysgwr adroddiad ysgrifenedig i gofnodi cyflwr cydrannau peiriant. ○
4. Roedd y dysgwr wedi cynnwys mewn adroddiadau cyflwr yr ardaloedd sydd angen cynnal a chadw a thrwsio heb fod yn arferol gan ddewis strategaethau trwsio priodol. ☐
5. Defnyddiodd y dysgwr wybodaeth gwneuthurwyr i nodi amserlenni a thasgau cynnal a chadw. ☐
6. Gwnaeth y dysgwr dasgau cynnal a chadw yn unol ag argymhellion gwneuthurwyr. ☐
7. Aeth y dysgwr i'r afael â materion cynnal a chadw bach nad oedd yn atodlenni'r gwneuthurwyr. ○
8. Gwnaeth y dysgwr dasgau trwsio ac adnewyddu yn gywir yn unol ag argymhellion gwneuthurwyr. ☐
9. Gwnaeth y dysgwr waith adnewyddu a thrwsio yn llwyddiannus lle nad oedd gwybodaeth ar gael gan y gwneuthurwyr. ○
10. Ymchwiliodd y dysgwyr i'r rhesymau posibl dros fethu a'u nodi'n gywir. ○
11. Dewisodd y dysgwyr offer llaw a'u defnyddio'n gywir. ☐
12. Dangosodd y dysgwr y gallu i ddefnyddio offer a chyfarpar mesur a gosod. ☐
13. Trefnodd y dysgwr yr offer, y cyfarpar a'r ardal waith yn dilyn gwaith cynnal a chadw a thrwsio. ☐
14. Glanhaodd y dysgwr yr offer a'u storio i'w defnyddio yn y dyfodol. ☐
15. Nododd y dysgwr dri deunydd gwastraff oedd yn ganlyniad i weithgareddau cynnal a chadw a thrwsio. ☐
16. Awgrymodd y dysgwr ddulliau priodol o gael gwared ar dri deunydd gwastraff a nodwyd. ○
17. Cafodd y dysgwr wared ar y deunyddiau gwastraff gafodd eu nodi mewn dull cywir. ☐

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

## ASEINIAD 307 CYFLAWNI GWEITHREDIADAU PEIRIANNAU TIR

### Tasg Ch Cynnal a chadw peiriannau tir

| | |
|---|---|
| Adborth i'r dysgwr: | |
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

## ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

Mae'r aseiniad hwn yn cysylltu ag Uned 308 Cyflawni Arferion Coedyddiaeth Uwch yn Llawlyfr y Cymhwyster.

### Taflen marcio a chyfansoddiad aseiniad

I’w chwblhau gan yr asesydd a’i llofnodi gan y dysgwr.

| Enw'r dysgwr | Rhif cofrestru |
|---|---|
| Enw'r ganolfan | Rhif y ganolfan |

| Canlyniad | Tasg | Marc | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Llwyddo (1 marc) | Teilyngdod (2 farc) | Rhagoriaeth (3 marc) |
| 1. Gallu cynnal archwiliad o'r awyr o goed | A | | | |
| 2. Gallu cynnal gweithrediadau tocio o fewn canopïau coed<br>3. Deall sut i ddatgymalu coed | B | | | |
| | | | Cyfanswm | |
| | | | Marc canolig (cyfanswm wedi'i rannu gyda 2) | |
| | | | **Gradd Gyffredinol** | |

| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
|---|---|
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (lle mae’n briodol) | Dyddiad |
| Llofnod Ymgynghorydd Cymhwyster (lle mae’n briodol) | Dyddiad |

# ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

## Tasg A Archwilio coed

### Meini Prawf Asesu

1.1. Trafod ffactorau sy'n berthnasol i archwilio coed o'r ddaear
1.2. Cynnal asesiad cyn-dringo o goeden
1.3. Adolygu'r dulliau a'r offer a ddefnyddir yn gyffredin i gael mynediad, lleoli a symud yn ddiogel o fewn canopi coeden
1.4. Dewis ac arolygu offer arbenigol priodol a dulliau gweithio i fynd at goed yn ddiogel a symud yn effeithiol o fewn y canopi
1.5. Cael mynediad i ganopi'r goeden yn ddiogel a symud yn effeithiol o fewn y canopi i archwilio coed
1.6. Asesu coed sydd angen gwaith ataliol neu adferol a chynhyrchu amserlen waith i gwrdd â'r gofynion ar gyfer y coed hynny

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg A mae gofyn i'r dysgwr gael mynediad at goed a'u harchwilio yn ddiogel er mwyn nodi gwaith ataliol neu adferol.

Mae angen i'r dysgwr dderbyn offer dringo a mynediad priodol i ymgymryd â'r canlyniad hwn a chael digon o hyfforddiant paratoadol mewn dringo coed yn ddiogel a lleoli gwaith. Rhaid peidio â gofyn i'r dysgwr weithio ar goed neu safleoedd gwaith peryglus lle mae lefel y risg yn cael ei hystyried yn annerbyniol. Dylid rhoi ystyriaeth i natur dymhorol ac amseru archwilio mewn perthynas â rhywogaethau coed ac amodau tywydd.

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a chynorthwyydd cyntaf hyfforddedig yn eu lle cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad.

Mae rhestr wirio marcio wedi’i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| A | Cafodd pob un o'r 16 maen prawf hanfodol ei fodloni. | Cafodd pob un o'r 16 maen prawf hanfodol ei fodloni:<br>3 maen prawf dymunol. | Cafodd pob un o'r 16 maen prawf hanfodol ei fodloni:<br>6 maen prawf dymunol. |

## ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

### Tasg A Archwilio coed

**Rhestr wirio marcio**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gwnaeth y dysgwr asesiad cyn-dringo priodol manwl yn benodol i'r dasg a'r safle. | ☐ |
| 2. | Gwnaeth y dysgwr asesiad cyn-dringo cynhwysfawr yn benodol i'r dasg a'r safle a gwnaeth sylwadau ar ganllawiau priodol gan y diwydiant. | ◯ |
| 3. | Trafododd y dysgwr yn briodol ffactorau perthnasol i archwilio coeden cyn ei dringo. | ☐ |
| 4. | Adolygodd y dysgwr y dulliau a'r cyfarpar a ddefnyddir yn gyffredin i gael mynediad ac i weithio o fewn canopi coeden. | ☐ |
| 5. | Adolygodd y dysgwr yn gynhwysfawr y dulliau a'r cyfarpar a ddefnyddir yn gyffredin i gael mynediad ac i weithio o fewn canopi coeden. | ◯ |
| 6. | Dewisodd y dysgwr ddillad priodol gwaith a'r PPE cywir a'u gwisgo. | ☐ |
| 7. | Dewisodd y dysgwr gyfarpar dringo a chyfarpar atodol priodol i ddringo'r goeden yn ddiogel. | ☐ |
| 8. | Archwiliodd y dysgwr yn briodol a gwnaeth sylwadau ar addasrwydd y cyfarpar dringo. | ☐ |
| 9. | Gwnaeth y dysgwr sylwadau'n gywir ar y cofnodion archwilio cyfarpar dringo oedd angen eu cynnal. | ◯ |
| 10. | Dangosodd y dysgwr weithdrefnau diogel ac effeithiol i gael mynediad ac i ddringo'r goeden. | ☐ |
| 11. | Gosododd y dysgwr safleoedd angori addas. | ☐ |
| 12. | Dangosodd y dysgwr dechnegau lleoli gwaith diogel ac effeithiol, yn cynnwys newid pwyntiau angori a cherdded canghennau i archwilio'r goeden yn briodol. | ☐ |
| 13. | Cyfathrebodd y dysgwr yn briodol gyda staff tir i sicrhau amgylchedd gwaith diogel. | ☐ |
| 14. | Cyfarwyddodd y dysgwr staff tir yn briodol i sicrhau amgylchedd waith ddiogel.. | ☐ |

## ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

### Tasg A Archwilio coed

**Rhestr wirio marcio**

15. Archwiliodd y dysgwr iechyd a ċhyflwr y goeden. ○
16. Dangosodd y dysgwr ddisgyniad diogel a dan reolaeth i lawr y goeden. ☐
17. Aeth y dysgwr i nôl cyfarpar a'i storio yn briodol ☐
18. Gadawodd y dysgwr y safle gwaith mewn cyflwr taclus a diogel ☐
19. Cynhyrchodd y dysgwr atodlen waith briodol yn benodol i'r goeden gafodd ei harchwilio. ☐
20. Cynhyrchodd y dysgwr atodlen waith gynhwysfawr yn benodol i'r goeden gafodd ei harchwilio. ○
21. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol i wneud y gwaith yn yr atodlen. ☐
22. Cyfiawnhaodd y dysgwr yn briodol gyfarpar priodol i wneud y gwaith yn yr atodlen. ○

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

# ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

## Tasg B Gweithrediadau tocio a datgymalu

### Meini Prawf Asesu

2.1 Crynhoi codau ymarfer a deddfwriaeth gyfredol sy'n briodol i waith coed o'r awyr
2.2 Esbonio amrywiaeth a phriodoldeb tocio toriadau
2.3 Esbonio sut mae'r ddamcaniaeth bresennol ar ymatebion clwyfau mewn coed yn hysbysu ac yn cyfarwyddo dulliau a thechnegau tocio
2.4 Adolygu offer a thechnegau arbenigol sydd ar gael ar gyfer gwaith coed o'r awyr
2.5 Dewis ac arolygu offer arbenigol priodol a dulliau gweithio i fynd at goed yn ddiogel a symud yn effeithiol i wneud gwaith tocio ataliol ac adferol mewn canopïau coed
2.6 Cael mynediad i ganopi'r goeden yn ddiogel a symud yn effeithiol o fewn y canopi i wneud gwaith tocio ataliol ac adferol mewn canopïau coed
3.1 Disgrifio'r offer a'r teclynnau sydd ar gael ar gyfer datgymalu coed, mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd
3.2 Dewis ac archwilio offer arbenigol priodol i ddatgymalu coed
3.3 Cael mynediad i ganopi coed yn ddiogel a symud yn effeithiol o fewn y canopïau i gael gwared ar bob cangen
3.4 Esbonio sut i dynnu canghennau a chwympo'r prif goesynnau

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg B mae gofyn i'r dysgwr gyrchu'n ddiogel a chynnal gwaith ataliol neu adferol mewn canopi coed ac esbonio sut i ddatgymalu'r goeden yn ddiogel.

Mae angen i'r dysgwr gael derbyn offer dringo ac offer atodol priodol i ymgymryd â'r dasg hon a bod wedi derbyn digon o hyfforddiant paratoadol ar docio, dringo coed a lleoli gwaith yn ddiogel. Rhaid peidio â gofyn i'r dysgwr weithio ar goed neu safleoedd gwaith peryglus lle mae lefel y risg yn cael ei hystyried yn annerbyniol. Dylid rhoi ystyriaeth i natur dymhorol ac amseru tocio mewn perthynas â rhywogaethau'r coed.

Rhaid i'r dysgwr docio coed i gwrdd â'r briff a roddwyd gan yr asesydd, all gynnwys: teneuo coron, lleihau coron, dyrchafu coron, ailffurfio coron a thocio ffurfiannol, codi coron, neu symud coed wedi marw. Dylai'r pwyslais fod ar y dysgwr i gyfiawnhau priodoldeb y tocio gafodd ei wneud.

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a chynorthwyydd cyntaf hyfforddedig yn eu lle cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad.

Dylai adborth yr asesydd nodi cryfderau a gwendidau dysgwr a dylai fod yn unol â'r meini prawf marcio. Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

## ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

### Tasg B Gweithrediadau tocio a datgymalu

**Meini Prawf Asesu**

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| B | Cafodd pob un o'r 20 maen prawf hanfodol ei fodloni. | Cafodd pob un o'r 20 maen prawf hanfodol ei fodloni:<br>3 maen prawf dymunol. | Cafodd pob un o'r 20 maen prawf hanfodol ei fodloni:<br>6 maen prawf dymunol. |

# ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

## Tasg B Gweithrediadau tocio a datgymalu

### Rhestr wirio marcio

1. Bu'r dysgwr yn trafod codau ymarfer a deddfwriaeth gyfredol sy'n briodol i waith coed o'r awyr. ☐
2. Bu'r dysgwr yn trafod yn gynhwysfawr y codau ymarfer a deddfwriaeth gyfredol sy'n briodol i waith coed o'r awyr. ◯
3. Adolygodd y dysgwr gyfarpar dringo a chyfarpar atodol addas i ddringo, tocio a datgymalu coed yn ddiogel mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. ☐
4. Adolygodd y dysgwr yn gynhwysfawr gyfarpar dringo a chyfarpar atodol addas i ddringo, tocio a datgymalu coed yn ddiogel mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. ◯
5. Gwnaeth y dysgwr asesiad cyn-dringo priodol manwl yn benodol i'r dasg a'r safle. ☐
6. Gwnaeth y dysgwr asesiad cyn-dringo cynhwysfawr yn benodol i'r dasg a'r safle. ◯
7. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol gwaith a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
8. Dewisodd y dysgwr gyfarpar dringo a chyfarpar atodol priodol i ddringo, tocio a datgymalu coeden yn ddiogel. ☐
9. Archwiliodd y dysgwr yn briodol a gwnaeth sylwadau ar addasrwydd y cyfarpar dringo a'r cyfarpar atodol. ☐
10. Gwnaeth y dysgwr sylwadau'n gywir ar y cofnodion archwilio cyfarpar dringo oedd angen eu cynnal. ◯
11. Dangosodd y dysgwr weithdrefnau diogel ac effeithiol i gael mynediad ac i ddringo'r goeden. ☐
12. Gosododd y dysgwr safleoedd angori addas. ☐
13. Dangosodd y dysgwr dechnegau lleoli gwaith diogel ac effeithiol, yn cynnwys newid pwyntiau angori a cherdded canghennau er mwyn symud o fewn y canopi. ☐
14. Symudodd y dysgwr ganghennau yn ddiogel yn unol â'r fanyleb angenrheidiol. ☐
15. Dangosodd y dysgwr y drefn gywir o doriadau tocio. ☐
16. Dangosodd y dysgwr ddulliau tocio coed diogel a phriodol. ☐
17. Gadawodd y dysgwr i'r canghennau gwympo'n rhydd yn ddiogel er mwyn i staff tir beidio bod mewn perygl. ☐

parhad ar y dudalen nesaf

## ASEINIAD 308 CYFLAWNI ARFERION COEDYDDIAETH UWCH

### Tasg B Gweithrediadau tocio a datgymalu

**Rhestr wirio marcio (parhad)**

| | | |
|---|---|---|
| 18. | Gwnaeth y dysgwr yn siŵr fod y canghennau'n cael eu gostwng yn ddiogel rhag i staff tir wynebu risg. | ○ |
| 19. | Cyfathrebodd y dysgwr yn briodol gyda staff tir i sicrhau amgylchedd gwaith diogel. | ☐ |
| 20. | Cyfarwyddodd y dysgwr staff tir yn briodol i sicrhau amgylchedd waith ddiogel. | ○ |
| 21. | Dangosodd y dysgwr ddisgyniad diogel a dan reolaeth i lawr y goeden. | ☐ |
| 22. | Aeth y dysgwr i nôl cyfarpar a'i storio yn briodol. | ☐ |
| 23. | Gadawodd y dysgwr y safle gwaith mewn cyflwr taclus a diogel. | ☐ |
| 24. | Cyfiawnhaodd y dysgwr yn briodol y dewis o doriadau a dulliau tocio gafodd eu defnyddio ar y goeden. | ☐ |
| 25. | Dangosodd y dysgwr dynnu'r canghennau i gyd. | ☐ |
| 26. | Esboniodd y dysgwr yn gywir sut i ddatgymalu'r goeden yn ddiogel drwy dynnu'r canghennau oedd ar ôl a chwympo'r prif gyffion. | ☐ |

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

## ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

Mae'r aseiniad hwn yn cysylltu ag Uned 309 Deall Cynllunio Coetiroedd yn Llawlyfr y cymhwyster.

### Taflen marcio a chyfansoddiad aseiniad

I'w chwblhau gan yr asesydd a'i llofnodi gan y dysgwr.

| | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr | Rhif cofrestru |
| Enw'r ganolfan | Rhif y ganolfan |

| **Canlyniad** | **Tasg** | **Marc** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Llwyddo (1 marc)** | **Teilyngdod (2 farc)** | **Rhagoriaeth (3 marc)** |
| 1. Gallu caffael data a gwybodaeth ar goetiroedd | C | | | |
| 2. Gallu cynhyrchu cynlluniau rheoli coetiroedd | Ch | | | |
| 3. Deall amcanion rheoli coetiroedd | A | | | |
| 4. Deall cynllunio rheoli coetiroedd | B | | | |
| | | | Cyfanswm | |
| | | | Marc canolig (cyfanswm wedi'i rannu gyda 4) | |
| | | | **Gradd Gyffredinol** | |

| | |
|---|---|
| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (lle mae'n briodol) | Dyddiad |
| Llofnod yr Ymgynghorydd Cymhwyster (lle mae'n briodol) | Dyddiad |

# ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

### Tasg A Cyflwyniad amcanion rheoli coetiroedd Meini

### Prawf Asesu

3.1 Trafod y defnydd o goetiroedd
3.2 Esbonio rhaid i'r gwrthdaro posibl a allai fodoli mewn perthynas â'r defnydd o goetiroedd
3.3 Esbonio amcanion dethol rheoli coetiroedd

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg A mae gofyn i'r dysgwr greu cyflwyniad ar y defnydd o goetiroedd ac amcanion potensial ar gyfer rheolaeth. Dylai'r cyflwyniad esbonio sut mae coetiroedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'r opsiynau ar gyfer rheoli coetiroedd ar gyfer defnyddiau gwahanol. Dylai'r cyflwyniad hefyd esbonio'r gwrthdaro sy'n gallu codi wrth geisio newid defnydd coetir.

Dylid annog y dysgwr i ddefnyddio delweddau a diagramau lle mae'n briodol i wella'r cyflwyniad. Dylid annog y dysgwr hefyd i ddefnyddio enghreifftiau o reolaeth coetiroedd llwyddiannus.

Dylai adborth yr asesydd nodi cryfderau a gwendidau dysgwr a dylai fod yn unol â'r meini prawf marcio. Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| A | Cynhyrchodd y dysgwr gyflwyniad yn trafod rhai defnyddiau ac amcanion o reolaeth coetiroedd gan amlygu rhai gwrthdrawiadau sy'n gallu digwydd. | Wedi cwrdd â'r meini prawf llwyddo a: Cynhyrchodd y dysgwr gyflwyniad yn cwmpasu llawer o ddefnyddiau ac amcanion rheoli coetiroedd a thynnodd sylw at sawl maes o wrthdaro yn sgil newid defnydd. | Wedi cwrdd â'r meini prawf teilyngdod a: Cynhyrchodd y dysgwr gyflwyniad ar gyfer coetir penodol gan ddyfynnu llawer o enghreifftiau o arfer da a dangosodd lefel uchel o ymchwil annibynnol. |

## ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

**Tasg A** **Cyflwyniad amcanion rheoli coetiroedd**

**Adborth dysgwr**

| Enw'r Dysgwr | Enw'r Asesydd |
|---|---|

| Enw'r asesydd **Cryfderau**<br>(Sut y cyflawnwyd y meini prawf, agweddau da o'r gwaith) | **Meysydd ar gyfer gwella**<br>(Cyngor ar gyfer aseiniadau i ddod) |
|---|---|
| **Gradd ar gyfer y dasg** | |

| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
|---|---|
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (os yw'n briodol) | Dyddiad |

# ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

## Tasg B Adroddiad cynllunio rheoli coetiroedd

### Meini Prawf Asesu

4.1 Esbonio strwythur, cynnwys a chyflwyniad cynllun rheoli coetir
4.2 Esbonio sut i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng y defnydd presennol o goetiroedd a'r defnydd potensial gan gwmpasu:
- cyfreithiol
- amgylcheddol
- gofynion defnyddwyr coetiroedd
- economaidd/ariannol
- ffisegol

4.3 Esbonio technegau a ddefnyddir i asesu coetiroedd

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg B mae gofyn i'r dysgwr gynhyrchu adroddiad yn esbonio cynlluniau rheoli coetiroedd. Dylai'r adroddiad drafod strwythur y cynllun rheoli, ei gynnwys a'r dulliau cyflwyno. Mae angen i'r dysgwr gynnwys dulliau casglu data coetiroedd cyn ysgrifennu cynllun rheoli.

Bydd yr adroddiad hefyd yn edrych ar y gwrthdaro sy'n gallu digwydd wrth newid defnydd coetiroedd. Ar gyfer y pum categori sydd wedi'u rhestru yn y meini prawf asesu dysgu mae angen i'r dysgwr esbonio sut y gall gwrthdaro godi o fewn y pum categori a thrafod cyfleoedd lliniaru potensial.

Dylai adborth yr asesydd nodi cryfderau a gwendidau dysgwr a dylai fod yn unol â'r meini prawf marcio. Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| B | Creodd y dysgwr adroddiad oedd yn trafod nifer o'r prif adrannau sy'n ofynnol mewn cynllun rheoli gan eu hesbonio i safon rhesymol. Amlygodd y dysgwr hefyd rai gwrthdrawiadau sy'n gallu codi gan drafod cyfleoedd lliniaru. | Wedi cwrdd â'r meini prawf llwyddo a: Creodd y dysgwr adroddiad oedd yn trafod pob un o'r prif adrannau sy'n ofynnol mewn cynllun rheoli gan eu hesbonio i safon dda. Amlygodd y dysgwr hefyd lawer o wrthdrawiadau sy'n gallu codi gan drafod cyfleoedd lliniaru. | Wedi cwrdd â'r meini prawf teilyngdod a: Creodd y dysgwr adroddiad oedd yn trafod pob un o'r prif adrannau sy'n ofynnol mewn cynllun rheoli gan eu hesbonio yn drylwyr ac yn gryno. Amlygodd y dysgwr lawer o wrthdrawiadau sy'n gallu codi gan drafod cyfleoedd lliniaru. Dangosodd yr adroddiad syniadau gwreiddiol a lefel uchel o ymchwil annibynnol. |

## ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

**Tasg B** **Adroddiad cynllunio rheoli coetiroedd**

**Adborth dysgwr**

| Enw'r Dysgwr | Enw'r asesydd |
| --- | --- |

| **Cryfderau**<br>(Sut y cyflawnwyd y meini prawf, agweddau da o'r gwaith) | **Meysydd ar gyfer gwella**<br>(Cyngor ar gyfer aseiniadau i ddod) |
| --- | --- |
| **Gradd ar gyfer y dasg** | |

| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
| --- | --- |
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (os yw’n briodol) | Dyddiad |

# ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

### Tasg C Arolwg coetiroedd

### Meini Prawf Asesu

1.1 Casglu a chofnodi data a gwybodaeth sy'n berthnasol i goetiroedd
1.2 Dehongli data a gwybodaeth a gasglwyd

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg C mae gofyn i'r dysgwr gynnal arolwg ar goetir penodol a chasglu data perthnasol i alluogi creu cynllun rheoli yn ddiweddarach. Mae angen i'r data a gesglir gael ei atodi gan ymchwil bellach oddi ar y we a mapiau i gael gwybodaeth nad oes modd ei chefnogi o'r arolwg.

Mae gofyn i'r dysgwr goladu'r wybodaeth a gasglwyd mewn fformat y gellir ei ddefnyddio i hysbysu cynllun rheoli.

Dylai adborth yr asesydd nodi cryfderau a gwendidau dysgwr a dylai fod yn unol â'r meini prawf marcio. Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| C | Arolygodd y dysgwr y coetir a chasglodd beth gwybodaeth berthnasol. Gwnaeth y dysgwr ymchwil i'r coetir hefyd a chyflwynodd yr wybodaeth wedi'i choladu. | Wedi cwrdd â'r meini prawf llwyddo ac: Arolygodd y dysgwr y coetir a chasglodd llawer iawn o ddata perthnasol. Gwnaeth y dysgwr ymchwil i'r coetir hefyd a chyflwynodd yr wybodaeth wedi'i choladu. | Wedi cwrdd â'r meini prawf teilyngdod ac: Arolygodd y dysgwr y coetir a chasglodd yr holl ddata perthnasol. Gwnaeth y dysgwr ymchwil i'r coetir hefyd a chyflwynodd yr wybodaeth wedi'i choladu mewn ffordd glir a chryno. |

## ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

### Tasg C Arolwg coetiroedd

### Adborth dysgwr

| Enw'r Dysgwr | Enw'r asesydd |
|---|---|

| **Cryfderau**<br>(Sut y cyflawnwyd y meini prawf, agweddau da o'r gwaith) | **Meysydd ar gyfer gwella**<br>(Cyngor ar gyfer aseiniadau i ddod) |
|---|---|
| **Gradd ar gyfer y dasg** | |

| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
|---|---|
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (os yw'n briodol) | Dyddiad |

# ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

## Tasg Ch Cynllun rheoli coetiroedd

### Meini Prawf Asesu

2.1 Llunio cynllun rheoli ar gyfer safle coetir penodol gan gynnwys gofynion gweithredol ac iechyd a diogelwch
2.2 Cyflwyno cynllun rheoli coetir yn briodol i gynulleidfa benodol

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg Ch mae gofyn i'r dysgwr gynhyrchu cynllun rheoli coetir ar gyfer y coetir gafodd ei arolygu yn nhasg C. Mae angen i'r cynllun rheoli gynnwys gofynion gweithredol a iechyd a diogelwch a dylai fod wedi'i ysgrifennu mewn arddull addas i bobl sydd â gwybodaeth gyfyng o goetiroedd a gweithrediadau coetir. Rhaid datgan amcanion y cynllun rheoli yn glir.

Dylai adborth yr asesydd nodi cryfderau a gwendidau dysgwr a dylai fod yn unol â'r meini prawf marcio. Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| Ch | Creodd y dysgwr gynllun rheoli oedd yn cynnwys rhai o elfennau allweddol cynllun rheoli gydag amcanion clir a chafodd ei ysgrifennu mewn modd proffesiynol. | Wedi cwrdd â'r meini prawf llwyddo a: Creodd y dysgwr gynllun rheoli oedd yn cynnwys yr holl elfennau allweddol i gynllun rheoli gydag amcanion clir a chafodd ei ysgrifennu mewn modd proffesiynol ond ar lefel addas i'w deall gan y gynulleidfa arfaethedig. | Wedi cwrdd â'r meini prawf teilyngdod a: Chreodd y dysgwr gynllun rheoli allai gael ei roi ar waith yn hawdd. Roedd yr amcanion a roddwyd yn glir ac yn arloesol. |

## ASEINIAD 309 DEALL RHEOLAETH COETIROEDD

### Tasg Ch Cynllun rheoli coetiroedd

**Adborth dysgwr**

| Enw'r Dysgwr | Enw'r asesydd |
|---|---|
| | |

| **Cryfderau**<br>(Sut y cyflawnwyd y meini prawf, agweddau da o'r gwaith) | **Meysydd ar gyfer gwella**<br>(Cyngor ar gyfer aseiniadau i ddod) |
|---|---|
| | |
| **Gradd ar gyfer y dasg** | |

| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
|---|---|
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (os yw'n briodol) | Dyddiad |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

Mae'r aseiniad hwn yn cysylltu ag Uned 310 Deall a Chyflawni Sgiliau Fforest a Choetir yn Llawlyfr y Cymhwyster.

### Taflen marcio a chyfansoddiad aseiniad

I’w chwblhau gan yr asesydd a’i llofnodi gan y dysgwr.

| | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr | Rhif cofrestru |
| Enw'r ganolfan | Rhif y ganolfan |

| Canlyniad | Tasg | Marc | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Llwyddo (1 marc)** | **Teilyngdod (2 farc)** | **Rhagoriaeth (3 marc)** |
| 1. Deall sgiliau coedwigoedd a choetiroedd<br>2. Gallu rheoli tyfiant a llystyfiant digroeso mewn coedwigoedd a choetiroedd. | A | | | |
| 1. Deall sgiliau coedwigoedd a choetiroedd<br>3. Gallu cynnal system draenio agored o fewn coedwig neu goetir | B | Llwyddo/methu (dileu fel y bo’n briodol) | | |
| 1. Deall sgiliau coedwigoedd a choetiroedd<br>4. Gallu adeiladu, cynnal a thrwsio ffensys coedwigoedd a choetiroedd | Ci | Llwyddo/methu (dileu fel y bo’n briodol) | | |
| 4. Gallu adeiladu, cynnal a thrwsio ffensys coedwigoedd a choetiroedd | Cii | Llwyddo/methu (dileu fel y bo’n briodol) | | |
| 1. Deall sgiliau coedwigoedd a choetiroedd<br>5. Gallu gosod a phlannu coed coedwigoedd a choetiroedd | Ch | | | |
| | | | Cyfanswm | |
| | | | Marc canolig (cyfanswm wedi'i rannu gyda 2) | |
| | | | **Gradd Gyffredinol** | |

| | |
|---|---|
| Llofnod y dysgwr | Dyddiad |
| Llofnod yr asesydd | Dyddiad |
| Llofnod y gwiriwr mewnol (lle mae’n briodol) | Dyddiad |
| Llofnod yr Ymgynghorydd Cymhwyster (lle mae’n briodol) | Dyddiad |

# ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

## Tasg A Rheoli tyfiant a llystyfiant digroeso Meini

### Prawf Asesu

1.2 Esbonio'r angen i ddileu a rheoli twf a llystyfiant diangen a chystadleuol
2.1 Rheoli llystyfiant digroeso o gwmpas coed
2.2 Malurio a thocio coed
2.3 Teneuo cellïoedd (clystyrau) coed

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg A mae gofyn i'r dysgwr reoli llystyfiant digroeso o gwmpas coed ac i symud tyfiant coed digroeso.

Gall y dysgwr ddefnyddio unrhyw ddulliau a chyfarpar priodol, yn cynnwys offer llaw, torwyr brws a pheiriannau reidio i reoli llystyfiant digroeso o gwmpas coed. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r dysgwr ddefnyddio plaladdwyr na dulliau cemegol cymeradwy eraill o reoli llystyfiant. mae gofyn i'r dysgwr reoli **dau** fath o lystyfiant digroeso sy'n cystadlu, gan ddefnyddio **dau** ddull.

Gall y dysgwr ddefnyddio unrhyw ddulliau a chyfarpar priodol i falurio neu docio coed i gwrdd â'r manylebau a roddwyd gan yr asesydd. Nid yw'n ofynnol i'r dysgwr ddringo na defnyddio mecanweithiau eraill i gael mynediad i goronau coed er mwyn tocio.  Rhaid peidio â gofyn i'r dysgwr weithio ar goed neu safleoedd gwaith peryglus lle mae lefel y risg yn cael ei hystyried yn annerbyniol.
Dylid rhoi ystyriaeth i natur dymhorol ac amseru tocio mewn perthynas â rhywogaethau coed.

Gall y dysgwr ddefnyddio unrhyw ddulliau a chyfarpar priodol i gwympo coed i gwrdd â'r manylebau teneuo a roddwyd gan yr asesydd. Os defnyddir llifiau cadwyn i gwympo coed dylai'r dysgwr eisoes feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd mewn Gweithrediadau Llif Gadwyn (unedau CS30 a CS31) neu gywerth. Dylai'r technegau a'r gweithdrefnau gwaith a ddefnyddiwyd fod yn briodol i'r coed gael eu cwympo'n ddiogel.

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a  pherson cymorth cyntaf hyfforddedig ar waith cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad.

Mae rhestr wirio marcio wedi'i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg A Rheoli tyfiant a llystyfiant digroeso

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| A | Cafodd pob un o'r 31 maen prawf hanfodol ei fodloni. | Cafodd pob un o'r 31 maen prawf hanfodol ei fodloni a 2 faen prawf dymunol. | Cafodd pob un o'r 31 maen prawf hanfodol ei fodloni a 4 maen prawf dymunol. |

# ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

## Tasg A Rheoli tyfiant a llystyfiant digroeso

### Rhestr wirio marcio

### Rheoli llystyfiant digroeso

1. Gwnaeth y dysgwr asesiad risg priodol manwl yn benodol i'r dasg a'r safle. ☐
2. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
3. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol (math 1), a'i gyfiawnhau, i dynnu llystyfiant sy'n cystadlu (math 1). ☐
4. Symudodd y dysgwr lystyfiant sy'n cystadlu (math 1) o gwmpas coed yn ddiogel i gwrdd â manylebau a roddwyd. ☐
5. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol (math 2), a'i gyfiawnhau, i dynnu llystyfiant sy'n cystadlu (math 2). ☐
6. Symudodd y dysgwr lystyfiant sy'n cystadlu (math 2) o gwmpas coed yn ddiogel i gwrdd â manylebau a roddwyd. ☐
7. Dewisodd y dysgwr weithrediad diogel ac effeithiol o bob cyfarpar. ☐
8. Aeth y dysgwr i nôl cyfarpar a'i storio yn briodol. ☐
9. Gadawodd y dysgwr y safle gwaith mewn cyflwr taclus a diogel. ☐
10. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. ☐
11. Esboniodd y dysgwr yn gywir yr angen i symud a rheoli llystyfiant sy'n cystadlu oddi wrth y coed. ☐
12. Esboniodd y dysgwr yn gywir y goblygiadau ariannol o symud a rheoli llystyfiant sy'n cystadlu oddi wrth y coed. ○

### Malurio a thocio coed

13. Gwnaeth y dysgwr asesiad risg priodol manwl yn benodol i'r dasg a'r safle. ☐
14. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
15. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol, a'i gyfiawnhau, i falurio a thocio coed. ☐
16. Dewisodd y dysgwr ddulliau tocio priodol. ☐
17. Symudodd y dysgwr ganghennau yn ddiogel gan ddefnyddio dulliau priodol i'r manylebau gofynnol. ☐

parhad ar y dudalen nesaf

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg A Rheoli tyfiant a llystyfiant digroeso

### Rhestr wirio marcio (parhad)

18. Dangosodd y dysgwr y drefn gywir o doriadau tocio. ☐
19. Dewisodd y dysgwr weithrediad diogel ac effeithiol o bob cyfarpar. ☐
20. Aeth y dysgwr i nôl cyfarpar a'i storio yn briodol. ☐
21. Gadawodd y dysgwr y safle gwaith mewn cyflwr taclus a diogel. ☐
22. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. ☐
23. Esboniodd y dysgwr yn gywir y rhesymau dros falurio a thocio coed. ☐
24. Esboniodd y dysgwr yn gywir y goblygiadau ariannol o falurio a thocio coed. ○

### Teneuo clystyrau coed

25. Gwnaeth y dysgwr asesiad risg priodol manwl yn benodol i'r dasg a'r safle. ☐
26. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
27. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol, a'i gyfiawnhau, i gwympo coed. ☐
28. Cwympodd y dysgwr goed yn ddiogel i gwrdd â manylebau. ☐
29. Dewisodd y dysgwr weithrediad diogel ac effeithiol o bob cyfarpar. ☐
30. Aeth y dysgwr i nôl cyfarpar a'i storio yn briodol. ☐
31. Gadawodd y dysgwr y safle gwaith mewn cyflwr taclus a diogel. ☐
32. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl ☐
33. Esboniodd y dysgwr yn gywir y rhesymau dros deneuo clystyrau o goed. ☐
34. Esboniodd y dysgwr yn gywir y goblygiadau ariannol o deneuo clystyrau o goed. ○
35. Esboniodd y dysgwr yn gywir sut y gellir defnyddio teneuo clystyrau coed i ddylanwadu ar ansawdd pren ac ar strwythur y cnwd terfynol. ○

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

**Tasg A** **Rheoli tyfiant a llystyfiant digroeso**

**Rhestr wirio marcio (parhad)**

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg B Cynnal a chadw draeniau coedwigoedd

### Meini Prawf Asesu

1.3 Esbonio'r angen i sefydlu a chynnal systemau draenio agored
3.1 Adnabod problemau draenio
3.2 Cynnal system ddraenio agored

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg B mae gofyn i'r dysgwr adnabod yn llwyddiannus broblemau draenio a chynnal a chadw system ddraenio agored. Dylai'r asesydd nodi'r draen sydd i'w gynnal a'i gadw yn ogystal â darparu manylebau priodol (i gynnwys llwybr, proffil a dyfnder). Gellir defnyddio dulliau modur-â-llaw neu fecanyddol i glirio a cynnal a chadw'r draen, ond nid ydyn nhw'n ofyniad.

Dylai'r asesydd glustnodi safle addas sy'n caniatáu i'r dysgwr gynnal a chadw darn o ddraen sydd angen cael ail-dorri'r cloddiau a symud y malurion.

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a chynorthwyydd cymorth cyntaf hyfforddedig yn eu lle cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad.

Mae rhestr wirio marcio wedi'i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Dim ond ar lefel Llwyddo y gellir cyflawni'r dasg hon.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| B | Cafodd pob un o'r 8 maen prawf hanfodol ei fodloni. | | |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg B Cynnal a chadw draeniau coedwigoedd

**Rhestr wirio marcio**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. | ☐ |
| 2. | Archwiliodd y dysgwr y draen gan adnabod problemau draenio yn gywir. | ☐ |
| 3. | Esboniodd y dysgwr yn gywir ganlyniadau draeniad gwael. | ☐ |
| 4. | Dewisodd a gweithredodd y dysgwr gyfarpar priodol yn ddiogel ac yn gywir. | ☐ |
| 5. | Aeth y dysgwr ati i ail-dorri ochrau'r draen yn ddiogel ac yn gywir. | ☐ |
| 6. | Symudodd y dysgwr falurion yn ddiogel o'r draen. | ☐ |
| 7. | Gadawodd y dysgwr y safle mewn cyflwr taclus a diogel. | ☐ |
| 8. | Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. | ☐ |

Meini prawf hanfodol ☐ Meini prawf dymunol ○

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

# ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Ci Adeiladu ffensys coedwigoedd

### Meini Prawf Asesu

1.4 Esbonio'r angen am ffensys coedwig a choetiroedd
1.5 Gwerthuso mathau o ffensio coedwigoedd
4.1 Adeiladu a chodi ffensys coedwigoedd

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg Ci mae gofyn i'r dysgwr fynd ati i adeiladu ffens coedwig. Dylai'r asesydd ddarparu manylebau priodol (i gynnwys llwybr, defnyddiau a phwyntiau mynediad). Gall yr amrywiaeth o waith ffensio amrywio yn ôl y safleoedd sydd ar gael a'r manylebau cysylltiedig, ond mae gofyn i'r dysgwr adeiladu ffensys postyn a rheiliau yn ogystal â ffensys postyn a gwifren. Gellir defnyddio dulliau modur-â-llaw neu fecanyddol i greu tyllau pyst, ond nid yw hyn yn ofyniad. Gall tyllau pyst gael eu llenwi gyda phridd wedi'i hyrddu i leihau'r defnydd o adnoddau.

Dylai'r asesydd glustnodi safle addas sy'n gallu rhoi lle i adeiladu'r ffensys canlynol fel canllaw:

- Ffens postyn a dwy reilen 30m o hyd, gan osod o leiaf un postyn 'pen'
- Ffens postyn a dwy weiren 30m o hyd, gan osod o leiaf un postyn tyniant

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a chynorthwyydd cymorth cyntaf hyfforddedig yn eu lle cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad.

Gellir gwneud y dasg fel gweithgaredd grŵp, ond rhaid asesu'r dysgwr yn annibynnol.

Mae rhestr wirio marcio wedi’i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Dim ond ar lefel Llwyddo y gellir cyflawni'r dasg hon.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| Ci | Cafodd pob un o'r 26 maen prawf hanfodol ei fodloni. | | |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Ci Adeiladu ffensys coedwigoedd

### Rhestr wirio marcio

### Adeiladu ffensys postyn a rheiliau

1. Esboniodd y dysgwr yr angen am ffensys coedwig yn gywir. ☐
2. Gwerthusodd y dysgwr yn gywir y mathau cyffredin o ffensys coedwig. ☐
3. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo ☐
4. Cynlluniodd a chyfrifodd y dysgwyr faint o ddeunyddiau oedd eu hangen yn gywir. ☐
5. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol a'i ddefnyddio'n ddiogel. ☐
6. Gweithiodd y dysgwr i'r manylebau a roddwyd. ☐
7. Gosododd y dysgwr linell y ffens yn gywir. ☐
8. Pennodd y dysgwr safle'r pyst yn gywir ☐
9. Gosododd y dysgwr y pyst ar gyfer y ffens bren i ddilyn y llinell ffens yn union ac i'r uchder a'r dyfnder gofynnol. ☐
10. Gwiriodd y dysgwr ac addasu fertigolau pob postyn. ☐
11. Gosododd y dysgwr y rheiliau yn gywir a'u gosod i'r uchder cywir. ☐
12. Gadawodd y dysgwr y safle mewn cyflwr taclus a diogel. ☐
13. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. ☐

### Adeiladu ffensys postyn a gwifren

14. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
15. Cynlluniodd a chyfrifodd y dysgwyr faint o ddeunyddiau oedd eu hangen yn gywir. ☐
16. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol a'i ddefnyddio'n ddiogel. ☐
17. Gweithiodd y dysgwr i'r manylebau a roddwyd. ☐
18. Gosododd y dysgwr linell y ffens yn gywir. ☐
19. Pennodd y dysgwr safle'r pyst yn gywir. ☐

parhad ar y dudalen nesaf

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

**Tasg Ci Adeiladu ffensys coedwigoedd**

**Rhestr wirio marcio**

20. Gosododd y dysgwr y pyst (yn cynnwys pyst tyniant) ar gyfer y ffens i ddilyn y llinell ffens yn union ac i'r uchder a'r dyfnder gofynnol. ☐
21. Gwiriodd y dysgwr ac addasu fertigolau pob postyn. ☐
22. Defnyddiodd y dysgwr ddyfais tyniant i gael tensiwn addas ar y wifren. ☐
23. Gosododd y dysgwr y wifren i'r pyst yn gywir a'u gosod i'r uchder cywir. ☐
24. Cadwodd y dysgwr densiwn priodol yn y wifren. ☐
25. Gadawodd y dysgwr y safle mewn cyflwr taclus a diogel. ☐
26. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. ☐

Meini prawf hanfodol ☐

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

# ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Cii Cynnal a chadw ffensys coedwigoedd

### Meini Prawf Asesu

4.2 Cynnal a thrwsio ffensio coedwigoedd presennol

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg Cii mae gofyn i'r dysgwr fynd ati i gynnal a chadw ffensys coedwig. Dylai'r asesydd ddarparu manylebau priodol (i gynnwys llwybr, defnyddiau a phwyntiau mynediad). Gall yr amrywiaeth o waith ffensio amrywio yn ôl y safleoedd sydd ar gael a'r manylebau cysylltiedig, ond mae gofyn i'r dysgwr gynnal a chadw ffensys postyn a rheiliau yn ogystal â ffensys postyn a gwifren.

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a chynorthwyydd cymorth cyntaf hyfforddedig yn eu lle cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad.

Gellir gwneud y dasg fel gweithgaredd grŵp, ond rhaid asesu'r dysgwr yn annibynnol.

Mae rhestr wirio marcio wedi’i darparu a dylid ei defnyddio. Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Dim ond ar lefel Llwyddo y gellir cyflawni'r dasg hon.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| Cii | Cafodd pob un o'r 20 maen prawf hanfodol ei fodloni. | | |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Cii Cynnal a chadw ffensys coedwigoedd

**Rhestr wirio marcio**

### Cynnal a chadw ffensys postyn a rheiliau

1. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
2. Cyfrifodd y dysgwyr faint o ddeunyddiau oedd eu hangen yn gywir. ☐
3. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol a'i ddefnyddio'n ddiogel. ☐
4. Gweithiodd y dysgwr i'r manylebau a roddwyd. ☐
5. Gosododd y dysgwr y pyst newydd ar gyfer y ffens bren i ddilyn y llinell ffens yn union ac i'r uchder a'r dyfnder gofynnol. ☐
6. Gwiriodd y dysgwr ac addasu fertigolau pob postyn. ☐
7. Gosododd y dysgwr reiliau newydd yn gywir a'u gosod yn briodol i'r uchder cywir. ☐
8. Gadawodd y dysgwr y safle mewn cyflwr taclus a diogel. ☐
9. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. ☐

### Cynnal a chadw ffensys postyn a gwifren

10. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
11. Cyfrifodd y dysgwyr faint o ddeunyddiau oedd eu hangen yn gywir. ☐
12. Dewisodd y dysgwr gyfarpar priodol a'i ddefnyddio'n ddiogel. ☐
13. Gweithiodd y dysgwr i'r manylebau a roddwyd. ☐
14. Gosododd y dysgwr y pyst newydd ar gyfer y ffens i ddilyn y llinell ffens yn union ac i'r uchder a'r dyfnder gofynnol. ☐
15. Gwiriodd y dysgwr ac addasu fertigolau pob postyn. ☐
16. Defnyddiodd y dysgwr ddyfais tyniant i gael tensiwn addas ar y wifren. ☐
17. Gosododd y dysgwr y wifren i'r pyst yn gywir a'u gosod i'r uchder cywir. ☐

parhad ar y dudalen nesaf

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Cii Cynnal a chadw ffensys coedwigoedd

### Rhestr wirio marcio (parhad)

18. Cadwodd y dysgwr densiwn priodol yn y wifren. ☐

19. Gadawodd y dysgwr y safle mewn cyflwr taclus a diogel. ☐

20. Cafodd y dysgwr wared ar wastraff yn briodol a chadw'r effaith amgylcheddol potensial mor isel â phosibl. ☐

Meini prawf hanfodol ☐

| Adborth i'r dysgwr: | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | Gradd a gyflawnwyd: |
| Enw a llofnod yr asesydd: | Dyddiad: |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Ch  Gosod allan a phlannu coed coedwigoedd a choetiroedd

### Meini Prawf Asesu

1.1 Gwerthuso dulliau plannu coed a chategorïau o stoc plannu
5.1 Paratoi a thrin safleoedd ar gyfer plannu coed
5.2 Trin, storio, cludo a dosbarthu stoc plannu yn gywir
5.3 Plannu coed yn ôl manylebau

### Canllaw asesu

I gwblhau tasg Ch mae gofyn i'r dysgwr osod allan a phlannu coed coedwig yn llwyddiannus. Dylai'r asesydd nodi'r safle sydd i'w blannu yn ogystal â darparu manylebau plannu priodol (i gynnwys stoc plannu, dwysedd plannu, dull plannu a gwarchod ar ôl plannu). Gall yr amrywiaeth o stoc plannu amrywio yn ôl y safleoedd plannu a'r manylebau cysylltiedig, ond dylai'r dysgwr blannu o leiaf **ddau** fath o stoc plannu, gan ddefnyddio **dau** ddull plannu a gosod **dau** fath o ddiogelu coed. Gellir defnyddio dulliau modur-â-llaw neu fecanyddol i glirio a pharatoi'r safleoedd ar gyfer plannu, ond nid yw hyn yn ofyniad. Yn ychwanegol, gellir defnyddio plaleiddiaid neu ddulliau tebyg o amddiffyn a chynnal a chadw ar ôl plannu, ond dydyn nhw ddim yn ofynnol.

Rhaid i'r asesydd sicrhau bod gweithdrefn frys addas a chynorthwyydd cymorth cyntaf hyfforddedig yn eu lle cyn i'r dysgwr ddechrau'r dasg hon. Rhaid i'r dysgwr wisgo PPE priodol drwy gydol yr asesiad. Mae rhestr wirio marcio wedi’i darparu a dylid ei defnyddio.

Bydd perfformiad y dysgwr yn cael ei farcio yn erbyn y meini prawf ar y rhestr wirio marcio. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio cyn cychwyn y dasg ond ni ddylai fod â chopi ohonyn nhw yn ystod yr asesiad.

Gellir cyflawni'r dasg hon ar lefel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

### Meini prawf marcio

| Tasg | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|
| Ch | Cafodd pob un o'r 13 maen prawf hanfodol ei fodloni. | Cafodd pob un o'r 13 maen prawf hanfodol ei fodloni a 2 faen prawf dymunol. | Cafodd pob un o'r 13 maen prawf hanfodol ei fodloni a 4 maen prawf dymunol. |

## ASEINIAD 310 DEALL A CHYFLAWNI SGILIAU FFOREST A CHOETIR

### Tasg Ch Gosod allan a phlannu coed coedwigoedd a choetiroedd

### Rhestr wirio marcio

1. Dewisodd y dysgwr ddillad priodol a'r PPE cywir a'u gwisgo. ☐
2. Aeth y dysgwr ati i baratoi ac amaethu'r safle yn ddiogel ac yn gywir cyn plannu. ☐
3. Gweithredodd y dysgwr gyfarpar trin tir a'i gynnal a'i gadw yn ddiogel a chywir. ☐
4. Gwiriodd y dysgwr y stoc plannu yn erbyn y fanyleb gan roi sylwadau priodol ar ei addasrwydd. ☐
5. Gwerthusodd y dysgwr yn gywir gategorïau cyffredin y stoc plannu sydd ar gael. ○
6. Esboniodd y dysgwr yn gywir ganlyniadau trafod planhigion yn wael. ○
7. Gwerthusodd y dysgwr yn gywir y dulliau storio planhigion amgen. ○
8. Esboniodd y dysgwr yn gywir yr angen am warchod ar ôl plannu. ○
9. Esboniodd y dysgwr yn gywir ddylanwad dwysedd plannu ar dyfiant coed wedi hynny. ☐
10. Aeth y dysgwr ati i drafod, storio, cludo a dosbarthu'r stoc plannu yn ddiogel ac yn briodol. ☐
11. Gwerthusodd y dysgwr yn gywir addasrwydd dulliau plannu cyffredin. ☐
12. Plannodd y dysgwr goed (stoc math 1) yn ddiogel ac yn gywir gan ddefnyddio dull plannu priodol (dull 1). ☐
